

# Deddfu i atal newid enwau Cymraeg tai

Y Pwyllgor Deisebau | 17 Tachwedd 2020  
Petitions Committee | 17 November 2020

Cyfeirnod: RS20/14079-4

Rhif y ddeiseb: P-05-1032

Teitl y ddeiseb: Deddfu i atal newid enwau Cymraeg tai.

Testun y ddeiseb: Mae 'na batrwm hyd a lled Cymru lle mae perchnogion newydd yn newid enwau tai i'r Saesneg.

- Does dim angen mynd yn bell i ddod o hyd i'r dystiolaeth!
- Fesul ychydig, mae'r wlad yn colli ei threftadaeth.
- Rhaid atal hyn er lles cenedlaethau'r dyfodol, beth bynnag fo'u hiaith.



## 1. Cyd-destun

Ar hyn o bryd, nid oes deddfwriaeth benodol sy'n gwahardd unigolion rhag ailenwi eu heiddo yng Nghymru. Fodd bynnag, mae yna rai gweithdrefnau, polisïau a chanllawiau penodol y dylai unigolion sy'n ystyried ailenwi eu heiddo eu dilyn. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am faterion o'r fath.

Nid yw'r ddadl ynghylch a oes angen gweithredu i atal pobl rhag newid enwau lleoedd ac enwau eiddo Cymraeg i'r Saesneg yn un newydd. Fodd bynnag, mae'r drafodaeth ynghylch y mater hwn wedi bod ar ei chynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda llawer o bobl yn cael yr argraff bod hanes, diwylliant ac iaith Cymru yn cael eu herydu'n raddol. Yn 2015, er enghraifft, cymeradwyodd [Cyngor Ynys Môn](#) yn unfrydol gynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i gryfhau pwerau awdurdodau lleol yn sylweddol, er mwyn amddiffyn enwau hanesyddol Cymru. Yn fwy diweddar, mae darlledwyr adnabyddus – Huw Edwards a Tudur Owen, a nifer o wleidyddion yn eu plith – wedi chwarae rhan yn y drafodaeth ar lwyfannau cyfryngau cymdeithasol, fel nodir yn [erthygl newyddion BBC Wales ym mis Gorffennaf](#) (cyrchwyd 14.10.2020).

Ymhlith yr enghreifftiau diweddar o 'Seisnigeiddio' enwau Cymreig ar fannay mae Porth Treacastell yn Ynys Môn, y cyfeirir ato'n aml fel 'Cable Bay' a Llyn Bochlwyd yn Eryri, sy'n aml yn cael ei alw'n 'Lake Australia'.

At hynny, mae enghreifftiau o eiddo yn cael enwau Saesneg newydd, neu'n cael eu hyrwyddo felly. Mae fferm Faerdre Fach yn Llandysul yn un enghraifft adnabyddus, sydd bellach yn cael ei hyrwyddo fel 'Happy Donkey Hill'. Enghraifft arall, fwy diweddar yw datblygu canolfan gwyliau moethus *Traeth Bychan Heights* yn Ynys Môn. Mae'r eiddo hwn yn ymddangos ar y [Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru](#) fel *Glynllifon*, yn dyddio'n ôl i'r 19<sup>th</sup> Ganrif. Yn dilyn pryderon a godwyd yn lleol am y newid enw mae'r cwmni y tu ôl i'r datblygiad [wedi cadarnhau, yn ôl y sôn, y bydd yr enw hanesyddol Glynllifon yn cael ei gadw](#) (Cyrchwyd erthygl BBC Cymru 14.10.2020).

## 2. Cefndir

### 2.1. Deddf Iechyd y Cyhoedd 1925

Mae [Adrannau 17-19 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1925](#) yn rhoi cyfrifoldeb statudol i awdurdodau lleol dros enwi strydoedd ac addasu enwau strydoedd a rhifau tai. At

hynny, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am ddarparu a chynnal y gronfa ddata cyfeiriadau awdurdodol, sef y [National Land & Property Gazetteer](#). Pan fydd eiddo a strydoedd newydd yn cael eu datblygu, fe ddylid eu cynnwys yn y gronfa ddata hon cyn gynted â phosibl a chyn i'r adeilad gael ei gwblhau bob tro.

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn ymestyn i enwi eiddo, ond gan fel awdurdodau enwi strydoedd lleol, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod cyfeiriad yr eiddo yn un 'swyddogol'. Gallai methu â gwneud hynny achosi problemau i berchennog yr eiddo oherwydd efallai na fydd y cyfeiriad yn cael ei gydnabod gan y Post Brenhinol, cwmnïau dosbarthu a chwmnïau cyfleustodau. Gallai anawsterau godi hefyd o ran cofrestru i bleidleisiom a gallai'r gwasanaethau brys gael anawsterau wrth ddod o hyd i'r cyfeiriad mewn argyfwng.

Bydd gan y mwyafrif o awdurdodau lleol dudalen we benodol gydag arweiniad a gweithdrefnau o ran newid enw eiddo yn eu hardal. Gall awdurdodau lleol hefyd ddarparu ffurflenni gwneud cais cais ar-lein, a manylion y costau o dan sylw. Mae gwefannau [Cyngor Caerdydd](#) a [Cyngor Sir y Fflint](#) wedi'u cynnwys fel enghreifftiau. Mae rhai awdurdodau lleol, fel [Cyngor Ceredigion](#) a [Chyngor Gwynedd](#) yn darparu arweiniad ychwanegol er mwyn annog perchnogion tai i ddefnyddio enwau Cymraeg ar eu heiddo, fodd bynnag, nid yw hynny'n orfodol.

## 2.2. [Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\) 2016](#)

Mae [Adran 34 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\) 2016](#) yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru 'lunio a chynnal rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru'. Cafodd y gwaith hwn ei wneud gan y Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ar ran Gweinidogion Cymru.

## 3. Camau gweithredu'r Senedd

Ym mis Ionawr 2017, enillodd Dai Lloyd AS y balot i gynnig bil Aelod: [Datblygu Bil Diogelu Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru](#). Darparodd Dai Lloyd AS y [Memorandwm Esboniadol](#) canlynol cyn y [ddadl yn y Cyfarfod Llawn](#), a gynhaliwyd ar 15 Mawrth 2017.

Nid oedd Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r bil, ac ni chafodd ganiatâd i fynd rhagddo.

Fel rhan o'i ymchwiliad yn 2017 i'r [Amgylchedd Hanesyddol](#), bu'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu yn trafod y Rhestr o Enwau Lleoedd

Hanesyddol Cymru. Nododd y dylai Llywodraeth Cymru barhau i fynd ati i adolygu'r mater a bod yn barod i gyflwyno mesur diogelu arall ar gyfer enwau lleoedd hanesyddol os na fydd y rhestr bresennol yn effeithiol.

Cafodd [deiseb yn galw ar y Senedd i amddiffyn a hyrwyddo enwau lleoedd Cymru](#) ei gyflwyno yn 2018. Dyma'r camau penodol y galwodd y deisebydd amdanynt:

Dylid diogelu hen enwau Cymraeg ar leoedd ac adeiladau o dan y gyfraith, a dylai fod yn orfodol i ddatblygiadau newydd gael enwau Cymraeg er mwyn diogelu ein diwylliant a'n hiaith unigryw.

Ym mis Mehefin 2020, bu'r Pwyllgor Deisebau yn ystyried deiseb debyg yn galw ar y Senedd i [weithredu er mwyn mynd yn ôl i sillafu enwau lleoedd Cymraeg yn y ffordd Gymraeg](#). Dyma'r camau penodol y galwodd y deisebydd amdanynt:

gweithredu a newid y ffurfiau Seisnigaid hyn o enwau Cymraeg, drwy Gymru gyfan, ac i adfer eu sillafiadau Cymraeg gwreiddiol.

Mae defnyddio enwau llefydd fel Trevor (o'r gair Cymraeg Trefor) ger Wrecsam nid yn unig yn tanseilio, ond yn cuddio etymolegau enwau o'r fath! Mae hyn sicr yn annerbyniol.

## 4. Camau gan Lywodraeth Cymru

Yn dilyn y ddeiseb yn 2018 i amddiffyn a hyrwyddo enwau lleoedd Cymru, amlinellodd Llywodraeth Cymru [y camau a gymerwyd ganddi yn y maes hwn](#) (PDF 197KB) mewn ymateb i'r ddeiseb. Nododd, ar ôl pasio [Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol \(Cymru\) 2016](#), bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhestr statudol o enwau lleoedd hanesyddol. Mae'n nodi:

Mae canllawiau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried y rhestr pan fo'u swyddogaethau'n cynnwys enwi neu ailenwi lleoedd. Mae hyn yn cynnwys enwi neu ailenwi strydoedd, adeiladau a lleoedd eraill, naill ai'n uniongyrchol neu gan barti arall. Y bwriad yw y bydd y rhestr a'r canllawiau statudol gyda'i gilydd yn arwain at ostyngiad yn nifer y newidiadau ffurfiol i enwau eiddo hanesyddol.

Fodd bynnag, nododd Llywodraeth Cymru:

...nid yw'r mesurau hyn yn mor bell â diogelu enwau lleoedd hanesyddol yn ffurfiol. Rhoddwyd ystyriaeth fanwl i ddiogelu enwau lleoedd

hanesyddol yn statudol wrth fynd ati i ddatblygu Deddf 2016, pan gyflwynwyd nifer o sylwadau tebyg i'r ddeiseb bresennol. Fodd bynnag, roedd nifer o faterion arwyddocaol, gan gynnwys gorfodi, beichiau ychwanegol posibl ar awdurdodau lleol a hawliau dynol, yn milwrio yn erbyn hynny.

**Yn ei hymateb i'r ddeiseb a gyflwynwyd yn 2020 ar ddychwelyd i sillafiadau enwau lleoedd Cymraeg, dywedodd Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol (ar y pryd):**

Mae Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 hefyd yn rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chadw rhestr o enwau lleoedd hanesyddol yng Nghymru. Caiff y Rhestr o Enwau Lleoedd Hanesyddol Cymru ei chynnal ar ein rhan gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Bellach, mae'n cynnwys bron 700,000 o gofnodion, ond mae'n adnodd deinamig, a bydd y rhestr yn parhau i dyfu. Mae'r adnodd yn un gwerthfawr ar gyfer olrhain y gwahanol ffurfiau ar enwau anheddiadau yng Nghymru, gan ei fod yn ceisio cofnodi enwau lleoedd hanesyddol y gellir pennu'n hyderus iddynt gael eu hadeiladau yn y lleoliad cyn 1919. I weld y rhestr, ewch i:

<https://enwaulleoeddhanesyddol.cbhc.gov.uk/>

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth a gynhwysir yn y briff hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r briffiau hyn o reidrwydd yn cael eu diweddarau na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.